**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 2 Mawrth, 2010 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd David Richardson – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Dewi Owen – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales), Mr Roger Lawson-Mole (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Trevor Roberts (Cyngor Gwynedd)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mr Gwynfor Owen | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, (Cyngor Gwynedd).

## 1. GAIR O GROESO

Croesawyd y Cynghorydd Trevor Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw, a hefyd Mr Roger Lawson-Mole, Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi, i'r cyfarfod.

Yng nghyswllt aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol, nododd y Cadeirydd bod Mr David Hughes wedi ymddiswyddo fel Aelod o'r Cyngor Cymuned ac felly nid oedd ychwaith yn cynrychioli Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi. Cadarnhawyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn enwebu aelod arall yn fuan ac yn yr un modd 'roedd Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi am ethol aelod yn dilyn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai.

## 2. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 20 Hydref 2010.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Adroddwyd:** Gan yr Harbwr Feistr bod paratoadau angorfa addas ar gyfer cychod mawr sy'n ymweld â'r harbwr mewn llaw ganddo ac fe fydd yr angorfa newydd wedi ei osod yn yr harbwr erbyn Gwyl y Pasg.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

4. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Ffioedd a Thaliadau
(ii) Cyllidebau
(iii) Mordwyo
(iv) Staff
(v) Gwobr Traeth
(vi) Materion Cyffredinol
(vii) Consesiwn Traeth
(viii) Pecyn Cychod Ymwelwyr
(ix) Cyfleusterau Pysgotwyr Masnachol

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) bod **ffioedd a thaliadau** ar gyfer flwyddyn ariannol nesaf 2010/11 wedi eu hanfon i'r swyddogion statudol a'r Arweinydd Portffolio sy'n argymell peidio codi'r tâl ar drigolion sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol ond eu codi 1% i'r rhai hynny sy'n byw tu allan i'r Sir.

Nodwyd bod y cynnydd mewn chwyddiant i bob Harbwr yng Ngwynedd yn negyddol ar -1.5% yn seiliedig ar ragdybiaeth cynnydd cyflog o 1%. Golyga hyn ostyngiad bychan yn nharged incwm cyffredinol yr holl Harbyrau o £2,600 yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd targed incwm Harbwr Aberdyfi wedi cyrraedd y targed gofynnol ers nifer o flynyddoedd ac fe fyddai'n ofynnol cymryd camau pellach i sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau heb beryglu safonau.

'Roedd ffioedd a thaliadau lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dwr Personol ddim wedi cynyddu Eleni.

Tynnwyd sylw at y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm am 2010/11 sef £9,070 sy'n cymharu gyda tharged uwch o £51,020 yn 2009/10. Golygai hyn gynnydd targed incwm cyffredinol i'r Uned Forwrol o £2,130,970 yn 2010/11.

Ychwanegodd yr Harbwr Feistr bod oddeutu 90 o ffurflenni cofrestru am angorfeydd wedi eu derbyn ac fe geir ymholiadau rheolaidd ynglŷn â chofrestru ar y rhestr aros.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â storio cychod dros y gaeaf, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y ffioedd wedi cynyddu'n sylweddol a bod cryn dipyn o alw am storfa ar yr Harbwr ac y byddai'n ofynnol monitro'r sefyllfa ar gyfer gaeaf nesaf.

(ii) Yng nghyswllt **cyllidebau**, nodwyd targed incwm o £39,660 am 2009/10 ac mai'r cyfanswm incwm hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 ydoedd £31,694, o'i gymharu â £32,821 am yr un cyfnod llynedd. Rhagwelir na ellir creu'r diffyg o **£7,719** mewn incwm yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol sy'n golygu na chyrhaeddir y targed. Tynnwyd sylw'r aelodau at ddifrifoldeb y sefyllfa oherwydd rhagwelir gorwariant o £3,300 yng nghyllideb yr Harbwr erbyn diwedd mis Mawrth ac y bydd angen goresgyn y gorwariant ynghyd â'r diffyg mewn incwm.

Pwysleisiwyd, oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni am yr angen i edrych ar arbedion effeithlonrwydd o fewn llywodraeth leol ac felly ‘roedd yn ofynnol gweithredu’n gost effeithiol er mwyn ceisio amddiffyn y cyfleusterau sy’n bodoli.

(iii) yng nghyswllt **mordwyo,** cafwyd diweddariad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynglyn â chynnal a chadw’r cymhorthion mordwyo a’r angen i adnabod arian o’r gyllideb refeniw presennol i gwrdd â’r gost. Sicrhawyd y byddai’r Bwi Sianel Fordwyo Port, sydd yn gymhorthydd mordwyo tymhorol, yn cael ei adleoli erbyn 1 Mai 2010 ac yn parhau ar y safle tan ddiwedd mis Medi 2010.

Pwysleisiodd sawl aelod bwysigrwydd i’r Bwi uchod fod ar y safle mewn da bryd o ystyried bod gwyliau’r Pasg yn gynnar eleni a hefyd bod gweithgareddau eraill i’w cynnal gan y Clwb Hwylio yn ystod wythnos gyntaf ym mis Mai. Gwnaed cais i’r Bwi gael ei leoli yn y man priodol oherwydd iddo fod ychydig i’r gogledd o’r sianel.

(iv) ymhelaethwyd ar y sefyllfa **staffio** gan nodi bod nifer o swyddogion o’r Uned Forwrol yn parhau i fod ar secondiad. Nodwyd bod Mr David O’Neill (a oedd wedi ei secondio i swydd yn Abersoch) wedi ei benodi i’r swydd Harbwr Feistr Porthmadog. Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr i Aberdyfi am y tymor nesaf a gobeithir penodi i’r swydd hon yn fuan. Gobeithir penodi un swyddog traeth i Aberdyfi yn ystod gwyliau’r haf a bydd angen rhoi ystyriaeth i benodi un Cymhorthydd Harbwr tymhorol ychwanegol yn Aberdyfi i fonitro a rheoli mordwyo cychod pŵer yn yr harbwr yn ystod cyfnod prysur.

Tynnwyd sylw’r Aelodau y byddai llithrfa Tywyn ar gau eleni oherwydd gwaith sy’n mynd rhagddo yn adeiladu’r morglawdd ac efallai y gwelir nifer o gychod yn lansio o Aberdyfi ac o ganlyniad y byddai’n ofynnol agor y llithrfa ger y Bad Achub i’r pwrpas hwn oherwydd anhwylustod i lansio yn ystod llanw uchel ger yr Eglwys.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) pryder gan sawl Aelod ynglyn â’r cynnydd o gychod a fyddai’n defnyddio’r llithrfa ger y Bad Achub yn benodol am ddiogelwch y cyhoedd gyda’r holl gerbydau yn bacio o fewn yr ardal hon a’i fod yn ardal anodd ei reoli. Dylid sicrhau bod staff digonol ar gael i gadw rheolaeth o ystyried y bydd llawer iawn o blant ar y traeth.

(b) bod tueddiad oherwydd i’r llithrfa fod ar gau i ddefnyddwyr Badau Dwr personol geisio lansio mewn safleoedd eraill preifat ac y dylid ceisio goresgyn hyn drwy roddi clo ar giatiau.

(c) y dylid gosod arwydd o flaen swyddfa’r Harbwr Feistr i gadw’r llithrfa yn glir ac yn lan ar bob achlysur i hyrwyddo lansio cyflym er mwyn osgoi tagfeydd.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bwysigrwydd i’r llithrfa fod yn hollol lan a phwysleisiodd yr angen i staff yr Harbwr sicrhau bod hyn yn digwydd yn ddyddiol. Roedd yn hafodol bod staff yr Harbwr yn cynnal archwiliad ffurfiol yn wythnosol ar yr holl lithrfeydd gan lanhau’r llithrfa pe byddai cerig neu gwynon yn amharu ar ddefnydd.

(ch) rhagwelir y byddai parcio ôl-gerbydau yn broblem a gofynnwyd pa ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer oherwydd ni ellir eu gadael ar y maes parcio nac wrth ymyl gorsaf y Bad Achub.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod perchnogion ôl-gerbydau yn talu i barcio yn Nhywyn ond fe ofynnir i’r Harbwr Feistr ymchwilio i opsiynau ar gyfer parcio e.e. efallai agor y safle gwyrdd dros dro.

(v) yng nghyswllt **gwobrau traeth,** nodwyd siom na fyddai'r Uned Forwrol mewn sefyllfa i gyflwyno cais am wobr traeth i draeth Aberdyfi yn 2010 oherwydd nid oedd ansawdd y dŵr ymdrochi yn cyrraedd y safon ofynnol. Fodd bynnag, 'roedd yr Uned Forwrol wedi gwneud cais am Wobr Traeth Tref Glan Môr i Aberdyfi. Cyfeiriwyd yr aelodau drwy'r rhestr fanwl o ganlyniadau profion dwr ymdrochi yn Aberdyfi yn ogystal ag edrych ar brofion Abermaw a Thywyn.

Nodwyd yn ogystal na fyddai'r Uned Forwrol yn cyflwyno cais am wobr y Faner Las na'r Wobr Traeth yn 2010 yn Nhywyn oherwydd y gwaith adeiladu'r morglawdd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

'Roedd un o'r Aelodau wedi edrych ar y ffigyrau yn fanwl gan ei fod yn monitro glawiad ac ymddengys bod y profion wedi eu gwneud yn ystod glaw trwm. O ganlyniad felly 'roedd llawer iawn mwy o ddŵr yn ardal y Ddyfi ac yn gorlifo i lawr y leri ar yr adeg benodol yma. 'Roedd o'r farn bod arogl drewllyd i'r dŵr sy'n gorlifo i'r leri ac y dylid gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd ymchwilio i'r pibelli carthffosiaeth er mwyn canfod os oedd ansawdd y dŵr yn cael ei achosi gan lygredd o'r garthffosiaeth.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig na ddylid digalonni hefo'r canlyniadau oherwydd bod ansawdd y dŵr yn cyrraedd y gofynion statudol. Nodwyd bod pob traeth yn cael methu un sampl ar unrhyw adeg ac fe eglurwyd bod y profion yn rhan o broses gwyddonol gyda sampl yn cael ei gymryd o gwmpas yr un lleoliad bob tro. Fe ddisgwylir canlyniadau yn deillio o'r archwiliad a wnaed ar ran Dwr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd drwy arllwys llifyn i'r leri i ganfod llif cerrynt yn yr aber gyda'r bwriad gobeithiol i ddarganfod tarddiad unrhyw lygredd.

Awgrymwyd y byddir yn trafod gyda'r Prif Beiriannydd i fedru gosod gwybodaeth am y Faner Las ar hysbysfwrdd yn Nhywyn er mwyn rhoi gwybod i ymwelwyr pam nad oedd y traethau wedi cyrraedd statws y Faner Las y tro hwn.

(vi) Yng nghyswllt **materion cyffredinol,** cyfeiriwyd at brosiect i'w ddatblygu sef gosod pontŵn fyddai'n ymestyn o'r man mwyaf dwyreiniol ar wal y cei am bellter o tua phedwar ugain medr. Ymhelaethwyd ar yr ystyriaethau i'w hystyried megis cyflwr presennol wal y cei, trwydded FEPA, cais cynllunio, ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a chaniatâd draenio tir posibl. Fe gynhelir arolwg o'r wal gan beirianwyr ymgynghorol er mwyn sicrhau asesiad manwl o gyflwr y stanciau sitiau ac fe roddir ystyriaeth bellach i'r datblygiad o bontŵn wedi hynny. Pe byddai'r datblygiad yn mynd rhagddo, nodwyd mai cyfleuster tymhorol fyddai'r pontŵn a bydd angen ei ddatgymalu i'w gadw ar y lan yn ystod y gaeaf a'i ail-osod ar gyfer gweithgareddau'r tymor yr haf. Fe fydd yr Uned Forwrol yn ymgynghori'n ymhellach gyda'r adrannau perthnasol ac yn cydweithio hefo'r gymuned leol i chwilio am ffynonellau grant posibl.

Ategodd y Prif Beiriannydd y byddai'n ddibynnol ar gyflwr y wal i allu gwireddu'r prosiect arfaethedig. Bwriedir cynnal arolwg o'r stanciau sitiau yn fuan a rhaid sylweddoli efallai y byddai'n ofynnol gwneud gwaith sylweddol i'r wal yn y 10 mlynedd nesaf neu lai, yn ddibynnol ar ganlyniad yr arolwg.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn nifer o lythyrau gan fudiadau ac unigolion yn cefnogi'r prosiect a fyddai o fudd economaidd i'r pentref ac yn helpu i ddenu incwm ychwanegol i gyllideb yr Harbwr. Amcangyfrifir cost y prosiect oddeutu £80,000 ac 'roedd sicrwydd o grantiau yn y swm o £35,000 o wahanol ffynonellau. Yn ogystal 'roedd pysgotwyr o Aberaeron / Aberystwyth wedi dangos diddordeb mewn cludo pysgod i werthwyr yn y pentref.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) pe byddai'r archwiliad yn profi bod angen gwaith i'r wal, a fyddai modd gosod y pontŵn ar wahân.

Mewn ymateb, esboniodd y Prif Beiriannydd y byddai hyn yn ychwanegu oddeutu £150,000 i gost y prosiect arfaethedig.

(b) mewn ymateb i ymholiad ynglyn a oedd cynllun wrth gefn i ymgymryd ag unrhyw waith os profir nad yw'r stanciau i fyny i safon, dywedodd y Prif Beiriannydd nad oedd cynllun wrth gefn wedi ei baratoi a'i bod yn disgwyl i weld be fyddai oes weddilliol y stanciau cyn symud ymlaen gydag unrhyw gynllun.

(c) pe byddai'r archwiliad yn darganfod bod y wal yn anaddas ac angen ei hatgyweirio, gofynnwyd a oedd posibilrwydd i'r Harbwr orfod cau.

Cadarnhaodd y Prif Beiriannydd pe byddai'r wal yn beryglus, yna fe fyddai'n rhaid cau'r rhan hon o'r Harbwr ond nid oedd yn rhagweld y byddai'n arwain at hyn. Gobeithir y byddai'r adroddiad yn cadarnhau oes o 10 mlynedd arall i'r wal a'r stanciau.

Ychwanegodd yr Aelod lleol y byddai cau'r Harbwr yn drychinebus i'r pentref ac os oes gwaith adnewyddu i'w gwblhau ar y wal hyderai bod gan y Cyngor arian wedi ei glustnodi i wneud y gwaith.

(vii) mewn perthynas â **chonsesiwn traeth,** cymeradwywyd cais gan yr Uned Forwrol i Dyfi Donkeys barhau i gludo plant ar fulod yn 2010.

(viii) atgoffwyd yr aelodau o'r cynnig yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i gyflwyno **Pecyn Croeso** i gychod sy'n ymweld â'r harbwr i gynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys, a.y.b. Cadarnhawyd y byddai'r Harbwr Feistr yn dosbarthu Pecyn Croeso cynhwysfawr i'r cychod ymweld

Cadarnhaodd yr Harbwr Feistr bod 43 o gychod wedi ymweld â'r Harbwr flwyddyn ddiwethaf a gynhyrchodd £633 mewn ffioedd aros dros nos.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y pecynnau yn syniad da gyda bwriad o gynhyrchu rhai i bob Harbwr.

(ix) yng nghyswllt **cyfleusterau pysgotwyr masnachol** nodwyd bod Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion wedi gwneud cais am ddarpariaeth i wneud ac i storio rhew. Fodd bynnag nid oedd unrhyw gynnig pendant wedi ei lunio gan nad oedd yn wybyddus faint o bysgotwyr sydd yn gweithredu ar hyn o bryd. Yn wyneb y ffaith nad oedd cynrychiolydd y Gymdeithas Pysgota yn bresennol yn y cyfarfod hwn, fe ddisgwylir am ragor o wybodaeth a chadarnhad pellach ganddynt faes o law.

Bu i'r Harbwr Feistr glirio'r safle a ddefnyddir gan ddefnyddwyr masnachol yn ddiweddar oherwydd cyflwr difrifol y safle. Hyderir y gellir cael cydweithrediad defnyddwyr masnachol i'r dyfodol o reolaeth y tir er mwyn sicrhau diogelwch ac agwedd weledol y safle.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghyd â'r sylwadau ychwanegol a wnaed uchod.**

## 4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS Y CYNGOR CYMUNED

### (a) Marchnata

Cyflwynodd y Cadeirydd boster o faint A3 i'r Aelodau a oedd wedi ei baratoi ganddo i hyrwyddo Aberdyfi ac i'w anfon ddechrau Ebrill i oddeutu 30 wahanol gyrchfannau. Teimlai nad oedd Aberdyfi yn cael ei farchnata i'r eithaf yn enwedig gan nad yw'n ymddangos ym mhamffledyn Hafan Pwllheli, yng nghylchgrawn y Parc Cenedlaethol nac ychwaith yn llyfryn "Watersports for All" a gynhyrchir gan Gwmni Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru. Yn y Sioeau Cychod Cenedlaethol a gynhelir yn flynyddol yn Llundain fe welir hysbysebion ar gyfer hwylio yn yr Alban, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, ond ddim byd am hwylio yng Nghymru.

Gwêl yr Aelod lleol y byddai marchnata yn fodd i gynyddu incwm nid yn unig i'r Harbwr ond hefyd i fusnesau lleol.

Diolchodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am y brwdfrydedd i gynhyrchu a pharatoi'r poster ond fe fyddai oblygiadau ychwanegol i'r Uned Forwrol mewn perthynas â pholisi dwyieithrwydd y Cyngor a'r angen hefyd i gynhyrchu poster cyffelyb i bob Harbwr o fewn y Sir. Yn sicr, 'roedd yr Uned Forwrol yn fwy na pharod i gynorthwyo ond rhaid cofio mai prin ydoedd adnoddau o fewn yr Uned i ganolbwyntio ar farchnata.

Ychwanegwyd bod prinder tramwyo o un lle i'r llall gan forwyr y dyddiau hyn ac efallai y gellid cynnig cymhelliad o aros 3 noson am bris 2 yn y gwahanol Harbyrau.

**Penderfynwyd: Derbyn a diolch i'r Cadeirydd am baratoi'r deunydd marchnata ac y byddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn trefnu cyfieithiad o'r poster i'w harddangos yn y mannau priodol.**

### (b) Prosiect Pontŵn

Nodwyd bod yr uchod wedi ei drafod eisoes dan Eitem 4 (vi) uchod.

## 5. UNRHYW FATER ARALL

### (a) Clirio Tywod

**Adroddwyd:** Gan y Prif Beiriannydd y byddai'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn ymgymryd â'r gwaith o glirio tywod eleni am dri diwrnod yn cychwyn ar 15 Mawrth 2010.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (b) Giatiau yn arwain i'r Promenâd

**Adroddwyd:** Ei bod yn anodd i bobl anabl mewn cadeiriau olwyn a rhieni hefo pram fedru cael mynediad i'r promenâd o'r maes parcio oherwydd maint y giatiau.

**Penderfynwyd: Y byddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu â'r swyddogion perthnasol yn yr Adran Priffyrdd gyda chais i ymchwilio i'r mater.**

### (c) Cregyn Gleision

**Adroddwyd:** (i) Bod oddeutu 10-12 o gasglwyr o Dde Cymru wedi clirio'r traeth o gregyn gleision dros y penwythnos. 'Roedd yr Harbwr Feistr yn ymwybodol ac wedi gwneud ymholiadau priodol a oedd yn datgan bod y casglwyr yn berchen ar drwydded ddilys a'u bod yn

gasglwyr bona fide. ‘Roedd y cregyn gleision o’r maint cywir i’w casglu ac fe hysbyswyd y mudiadau perthnasol o’r digwyddiad.

(ii) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod angen i’r Gwasanaeth Forwol dderbyn adroddiad pan mae ansawdd y cregyn gleision yn addas ar gyfer eu casglu fel bo modd rhoi da rybudd i’r Harbwr Feistr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(ch) Cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr**

Ymholodd aelod i ba Bwyllgor y cyflwynir cofnodion y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.
Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y cofnodion yn cael eu cyflwyno i unrhyw Bwyllgor o’r Cyngor a bod y swyddogion yn gweithredu ar benderfyniadau pan fo angen ac yn unol a’r awdurdod sydd ganddynt. Nid oedd y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr yn gyfarfodydd statudol ac eithrio Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. ‘Roedd bwriad gan y Swyddog Monitro i ymchwilio ymhellach i rai o ddyletswyddau Bwrdd y Cyngor mewn perthynas â harbyrau ond ar hyn o bryd, yn unol â’r drefn, fe fyddai’r swyddogion yn gweithredu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr.

Nodwyd yn ychwanegol bod rhaglenni, adroddiadau a chofnodion y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr yn cael eu gosod ar Wefan y Cyngor ac yn gyhoeddus i unrhyw un ei gweld.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(d) Clwb Cychod Aberdyfi**

Gofynnwyd gan gynrychiolydd Clwb Cychod Aberdyfi i’r Harbwr Feistr gysylltu â’r Clwb os gwêl unrhyw un o’r aelodau yn camddefnyddio’r foryd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(dd) Cost o waredu llamidyddion**

Gofynnwyd a oedd yr Uned Forwrol yn derbyn costau ychwanegol am waredu llamidyddion a oedd yn golchi i’r lan, ac oni fedrai Uned arall o fewn y Cyngor gynorthwyo hefo hyn.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gost yn gyfrifoldeb i’r Uned Forwrol ac y byddai’r costau yn dyblu pe gofynnir i Uned arall gynorthwyo. Sicrhawyd bod y staff sydd yn ymgymryd â’r gwaith yn gwisgo offer pwrpasol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(e) Amddiffyn yr Arfordir**

**Adroddwyd:** Gan aelod, tra’n gwerthfawrogi’r gwaith sy’n mynd rhagddo i amddiffyn yr Arfordir yn Nhywyn, mynegodd bryder ynglyn a’r effaith i’r arfordir i’r De o Dywyn gan gynnwys Clwb Golff Aberdyfi. Rhagwelai y byddai’r môr yn dod drosodd i’r ardal yma ac yn botensial i golli incwm sylweddol i’r Clwb Golff. ‘Roedd yr aelod o’r farn y dylid monitro’r sefyllfa ac ystyried enciliad rheoledig.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Beiriannydd bod yr holl dir wedi cael ystyriaeth yn ystod y broses dylunio cynllun amddiffyn yr arforidir a bod cytundeb rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a

Chyngor Cefn Gwlad Cymru iddynt gynnal y tir am y 20 mlynedd nesaf a'r bwriad ydoedd creu enciliad rheoledig.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

6. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 19 Hydref 2010.

**Penderfynwyd** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD**